

CYPE(6)-01-22 - Papur i'w nodi 2

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Legislation, Justice and
Constitution Committee**

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Jeremy

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Cwestiynau pellach

Diolch am ymuno â'n cyfarfod ddydd Llun 6 Rhagfyr i roi tystiolaeth ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Fel y soniwyd yn ystod y sesiwn, mae gennym nifer o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil, sydd wedi'u nodi yn yr Atodiad.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 19 Ionawr 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jayne Bryant, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English



**Senedd Cymru
Welsh Parliament**

Atodiad

Cyffredinol

1. A allwch chi gadarnhau pa asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas ag effaith y Bil ar hawliau dynol a beth oedd canlyniad yr asesiadau hyn? Yn benodol, a ydych yn fodlon bod yr hawliau mynediad ac arolygu y darperir ar eu cyfer yn adrannau 62 a 72 o'r Bil yn cydymffurfio â *Deddf Hawliau Dynol 1998*?
2. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer y Bil hwn yn nodi rhestr o 20 o bwerau gwneud rheoliadau a etifeddwyd i raddau helaeth o ddeddfwriaeth gyfredol, y cyfeirir atynt fel y pwerau etifeddol. A yw pob un o'r pwerau etifeddol yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn graffu y Senedd ag y maent yn y ddeddfwriaeth bresennol? A allwch chi hefyd gadarnhau, lle roedd pwerau yn y Bil yn bodoli ar ffurf wahanol yn flaenorol, er enghraifft yn pŵer i wneud rheoliadau sydd bellach yn bŵer i wneud cyfarwyddiadau, a yw'r un weithdrefn neu weithdrefn uwch yn cael ei chymhwyso? Byddai'n ddefnyddiol cael rhestr gynhwysfawr yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â phob un o'r pwerau.
3. Pam nad yw'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn ymdrin â phwer Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau o dan baragraff 1 o Atodlen 15?

Rhan 1

4. Mae Adran 11 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o flaenoriaethau strategol mewn perthynas ag addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi. A allwch chi egluro pam nad oes dyletswydd ar wyneb y Bil ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag unrhyw un arall wrth baratoi'r datganiad?
5. Mae adran 13(4) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi ei gynllun strategol cymeradwy, ond nid yw'n darparu amserlen ar gyfer gwneud hynny. Pam felly?
6. Mae adran 22 o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 2, sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud cynlluniau i drosglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o CCAUC a Gweinidogion Cymru i'r Comisiwn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r Senedd wneud gwaith craffu ar y cynllun hwn. A allwch chi esbonio pam felly?

Rhan 2

7. Mae adran 23 yn darparu ar gyfer pwerau amrywiol i wneud rheoliadau mewn perthynas â chofrestru darparwyr gan y Comisiwn. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn esbonio:

"mae'r strwythur cyllido (ac o ganlyniad rheoleiddio priodol) addysg drydyddol (yn arbennig addysg uwch) ledled y DU wedi newid yn aml yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda newidiadau yng ngweinyddiaethau eraill y DU yn aml yn cael effaith ar bolisi ariannu yng Nghymru Mae'r newidiadau hyn wedi digwydd ar gyfradd sy'n gynt na'r hyn sy'n briodol neu'n ymarferol i'r Llywodraeth Cymru ymateb gyda deddfwriaeth sylfaenol ynghylch manylion rheoleiddio ym mhob achos. Felly, dylai'r Bil drafft hwn alluogi i fanylion y fframwaith rheoleiddio gael eu newid mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn strwythur neu gyllid y sector trydyddol yng Nghymru."

A allwch chi ddarparu mwy o wybodaeth am hyn a chadarnhau a oes trafodaethau yn digwydd gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod y gyfraith yn gallu cadw i fyny â'r newidiadau?

8. Mae sawl adran yn y Bil lle caiff "enghreifftiau" eu rhoi ar gyfer materion y gall rheoliadau ymdrin â nhw, er enghraifft, adran 25(4) ac adran 59(2). A yw'r Gweinidog o'r farn y gallai hyn wneud i rai darllenwyr feddwl mai dim ond y materion sy'n cael eu rhestru y gall y rheoliadau dan sylw ymdrin â nhw?
9. Mae adran 30(2)(b) yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu beth yw "categori terfyn ffioedd". Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ond mae'r tri phŵer arall i wneud rheoliadau yn adran 30 sydd hefyd yn ymdrin â therfynau ffioedd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. A allwch chi egluro pam nad yw'r holl bwerau yn yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol pan maent yn ymdrin â'r un pwnc?
10. O ran pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru o dan y Bil, mae adran 68 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd yn uniongyrchol i gorff llywodraethu darparwr. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn cadarnhau mai'r bwriad yw defnyddio hyn pan fydd y Comisiwn wedi defnyddio'i holl swyddogaethau ymyrryd neu pan fydd y mater mor ddifrifol fel bod angen gweithredu ar frys. Pam nad yw'r amodau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar wyneb y Bil?
11. Mewn perthynas ag adran 77(4) o'r Bil, mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi y byddai unrhyw reoliadau sy'n cael eu gwneud o dan y ddarpariaeth hon yn weddol debyg i'r trefniadau cyfredol yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015. A allwch chi gadarnhau beth yw ystyr yr ymadrodd 'gweddol debyg'?

Rhan 3

12. Mae adran 86(6) o'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau y dywed y Datganiad ar y Bwriad Polisi na fwriedir eu defnyddio ar hyn o bryd. Pam eu bod yn cael eu cynnwys yn y Bil hwn? Oni fyddai'n well rhoi sylw iddynt yn y dyfodol os a phan fydd yr angen yn codi?



13. Mewn perthynas ag adran 91, dywed y Datganiad o Fwriad y Polisi mai'r bwriad wrth ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i bennu cwrpas addysg a chymhwystra perthnasol at ddibenion y ddyletswydd gyllido yw golygu bod modd ehangu'r cynnig a ariennir o addysg bellach a hyfforddiant i oedolion yn raddol dros amser i fynd i'r afael â phatrymau esblygol o ran anghenion. Yn yr un modd, mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn defnyddio geiriad fel "nid yw'n bolisi cyfredol gan y llywodraeth" a "pe bai'r angen yn codi" yng nghyd-destun pwerau gwneud rheoliadau o dan adrannau 95 a 101. A allwch chi ymhelaethu ar hyn ac egluro pam rydych chi'n ystyried ei bod yn briodol rhoi'r pwerau hyn ar waith nawr, yn hytrach na phan fydd yr angen wir yn codi?
14. Mae Rhan 3 o'r Bil yn ymdrin ag ariannu addysg ac ymchwil drydyddol. Mae bron â bod pob un o'r pwerau yn y Rhan hon i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae adran 106 o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn pe bai cyllid yn cael ei gamreoli gan ddarparwr ac nad yw'r cyfarwyddiadau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn heblaw cael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'r rhain wedi'u modelu'n fras ar adran 57 bresennol *Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992* sy'n ymwneud â CCAUC, lle mai dim ond trwy orchymyn Gweinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol y gellir rhoi cyfarwyddiadau o'r fath. A allwch chi gadarnhau pam nad yw cyfarwyddebau o'r fath yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd?

Rhan 4

15. Mae'r Datganiad o Fwriad y Polisi yn nodi bod nifer o'r pwerau yn Rhan 4 "yn ailddeddfu neu'n adeiladu ar y pwerau gwneud rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn *Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009*". A allwch chi gadarnhau, os yw hyn yn wir, bod y weithdrefn graffu a oedd yn gymwys o dan Ddeddf 2009 yn parhau i fod yn gymwys o dan y Bil?

Rhan 5

16. Mae adran 130(6) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau y byddant yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo corff neu unigolyn i gymryd cais i wybodaeth dderbyn ac i gynnal a chyhoeddi ymchwil mewn perthynas â gwybodaeth o'r fath. Nid oes unrhyw ofyniad i osod y canllawiau hyn gerbron y Senedd. A allwch chi esbonio pam felly?

Rhan 7

17. Mae adran 135 yn cadw pŵer eang i ddiddymu corfforaethau addysg uwch heb unrhyw gyfiawnhad dros gadw'r pŵer hwn heblaw ei bod yn "sefyllfa ddymunol". A ydych chi'n

ystyried bod hyn yn gyfiawnhad digonol ac a allwch chi ymhelaethu ar y rhesymau dros gadw'r pŵer hwn?

